

Adolygiad Blynyddol o'r Rheolaethau ar Fewnforio Cynhyrchion Anifeiliaid

Ebrill 2010 – Mawrth 2011

Medi 2011

www.defra.gov.uk



Department of
**Agriculture and
Rural Development**
www.dardni.gov.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



The Scottish
Government



defra
Department for Environment
Food and Rural Affairs

Adolygiad Blynyddol o'r Rheolaethau ar Fewnforio Cynhyrchion Anifeiliaid

Ebrill 2010 – Mawrth 2011

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 10A o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981
(fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002).

Department for Environment, Food and Rural Affairs
Nobel House
17 Smith Square
London SW1P 3JR
Ffôn 020 7238 6000
Gwefan: www.defra.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2011

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn rolf.kluttig@defra.gsi.gov.uk
Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn www.official-documents.gov.uk
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ein gwefan yn www.defra.gov.uk

ISBN: 9780108510939

Argraffwyd yn y DU ar yfer y Llyfrfa Gyfyngedig ar ran Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi

ID 2445065 09/11

PB13600W

Argraffwyd ar Bapur sy'n cynnwys isafswm o 75% o ffeibr wedi'i ailgylchu.

Rhagair gan Jim Paice



Yn dilyn fy mlwyddyn gyntaf fel y Gweinidog Gwladol dros Amaethyddiaeth a Bwyd, croesawaf y cyfle unwaith eto i gyflwyno adroddiad ar y camau a gymerwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) ac adrannau ac asiantaethau eraill y Llywodraeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i geisio lleihau'r risg o glefydau yn dod i mewn i'r wlad drwy fewnforio cynhyrchion anifeiliaid.

Mae'r Llywodraeth yn dal i fod yn ymrwymedig i gymryd camau cadarn i atal cynhyrchion anifeiliaid o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd (UE) a all ddod â'r risg o glefydau a all beryglu iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd, er enghraifft Clwy'r Traed a'r Genau a ffliw adar pathogenaidd iawn math H5N1, rhag cael eu mewnforio'n anghyfreithlon. Mae hefyd risg sylweddol i'r economi fel y gwyddom yn sgîl argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau yn 2001 yr amcangyfrifir iddo gostio £3 biliwn mewn perthynas ag amaethyddiaeth a'r gadwyn fwyd.

Yn dilyn yr adolygiad o wariant, mae Defra ar y cyd ag Asiantaeth Ffiniau'r DU, y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad a'r Asiantaeth Safonau Bwyd, wedi parhau i weithredu'n gydgyssylltiedig ar y strategaeth gyfathrebu gyffredinol a cheisio cyfleoedd i helpu i godi ymwybyddiaeth teithwyr o'r rheolau ar fewnforio cynhyrchion anifeiliaid at ddefnydd personol, er iddynt wneud hynny am gost isel neu heb unrhyw gost o gwbl.

Mae hefyd yn galonogol nodi bod y fframwaith cudd-wybodaeth presennol rhwng Asiantaeth Ffiniau'r DU a'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi'i atgyfnerthu i wella'r llif o wybodaeth am risg sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau gorfodi ar y ffin ac yn fewndirol i dargedu cynhyrchion anifeiliaid anghyfreithlon.

Nid oes modd dileu risg yn gyfan gwbl ond rydym yn parhau i fonitro ac asesu'r bygythiadau sy'n newid o bob rhan o'r byd. Felly, rydym yn parhau i weithio'n agos gydag Asiantaeth Ffiniau'r DU i sicrhau bod ei rheolaethau gwrthsmyglo ar ffin Prydain Fawr yn ymateb i risgiau newydd i iechyd anifeiliaid neu risgiau sy'n newid a sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar y llwybrau a'r nwyddau sy'n peri'r risg fwyaf.



Jim Paice
Y Gweinidog Gwladol dros Amaethyddiaeth a Bwyd

1.1.1 Dyma'r nawfed adolygiad blynyddol o'r rheolaethau ar fewnforio cynhyrchion anifeiliaid, a elwir hefyd yn Gynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid, i Brydain Fawr yn unol ag adran 10A o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002). Mae'n rhoi gwybod am y datblygiadau a welwyd yng ngweithgareddau Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), y Gweinyddiaethau Datganoledig ac adrannau ac asiantaethau eraill y Llywodraeth yn 2010/11 i leihau'r risg o glefydau yn dod i mewn i'r DU drwy fewnforio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid.

Rolau a chyfrifoldebau

Dyma'r prif ddatblygiadau a welwyd ers y rhai a nodwyd ym mharagraffau 1.2.1 i 1.2.10 yn Adolygiad 2009/10:

1.2.1 Mae'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn parhau i weithredu system o reolaethau caeth ar fewnforio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn anghyfreithlon. Dim ond drwy Fannau Archwilio ar y Ffin dynodedig y gellir mewnforio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid o wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE, lle maent yn destun archwiliadau milfeddygol gan Filfeddyg Swyddogol i sicrhau y bodlonir amodau mewnforio. Mae pob llwyth yn destun gwiriadau dogfennol a gwiriadau adnabod yn y Man Archwilio ar y Ffin yn ogystal â lefelau penodedig o wiriadau ffisegol yn ôl y math o gynnyrch a'r wlad y daw ohoni.

1.2.2 Dim ond o'r gwledydd hynny nad ydynt yn rhan o'r UE a'r gweithfeydd cynhyrchion a awdurdodwyd gan yr UE i fewnforio'r cynnyrch dan sylw y caniateir mewnforion. Mae'r cyfryw awdurdodiad yn seiliedig ar warantau i'r UE am safonau iechyd a hylendid anifeiliaid. Mae'n rhaid anfon ardstiad iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd gydag unrhyw gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid y bwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl.

Mae deddfwriaeth yr UE yn caniatáu i ni gymryd camau diogelu priodol a all gynnwys gwahardd cynhyrchion sy'n dod o rywogaethau o anifeiliaid sy'n agored i glefydau rhag cael eu mewnforio o

wlad gyfan neu rannau ohoni os ceir achos o glefyd sy'n debygol o beri risg i iechyd pobl neu anifeiliaid.

Mae'r ddeddfwriaeth hon hefyd yn caniatáu i gig gael ei fewnforio o wledydd penodol lle y ceir Clwy'r Traed a'r Genau, ond dim ond os yw'r clefyd wedi'i gyfyngu i ardaloedd penodol. Caniateir mewnforion naill ai o rannau o'r wlad sy'n rhydd o glefyd neu o dan amodau llym sy'n sicrhau nad yw'r cig yn dod o unrhyw anifail a all fod wedi dod i gysylltiad â Chlwy'r Traed a'r Genau cyn, wrth ac ar ôl cael ei ladd.

1.2.3 O 1 Ebrill 2010, mae staff grŵp Gweithrediadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi bod yn gyfrifol am weithgarwch goruchwyllo, arolygu a marcio iechyd ym mhob sefydliad cig ffres trwyddedig domestig ym Mhrydain Fawr, a arferai gael ei gyflawni gan y Gwasanaeth Hylendid Cig. Mae'r Milfeddyg Swyddogol yn gyfrifol am ddarparu goruchwyliaeth filfeddygol lawn mewn lladd-dai. Os bydd staff yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn canfod cig mewn gweithfeydd torri cymeradwy y maent yn amau iddo gael ei fewnforio'n anghyfreithlon, nhw sydd â'r prif gyfrifoldeb am ddelio ag ef a'r pwerau i wneud hynny. Maent yn hysbysu Defra o unrhyw ganfyddiadau o'r fath fel y gellir rhannu gwybodaeth am atafaeliadau rhwng yr holl asiantaethau gorfodi.

1.2.4 Adolygwyd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth, sy'n ffurfioli'r gydberthynas a'r cyfrifoldebau rhwng Defra, Asiantaeth Ffiniau'r DU, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn ystod y flwyddyn i ymdrin yn benodol â chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, anifeiliaid byw a phathogenau anifeiliaid yn unig (rhwng 1 Hydref 2010 a 31 Mawrth 2011). Ymdrinnir â'r swyddogaethau a'r trefniadau gweithio sydd ar waith rhwng yr Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd (Fera), y Comisiwn Coedwigaeth, Asiantaeth Ffiniau'r DU, CThEM, Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar gyfer rheolaethau rheoliadol a rheolaethau gwrthsmglo ar gyfer planhigion a chynhyrchion planhigion, coedwigoedd, pren a chynhyrchion pren, rheolaethau rheoliadol ar gyfer ansawdd hopys a ffrwythau a llysiau yn y dyfodol mewn Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar wahân.

Adolygu rheolaethau ar fewnforio cig a chynhyrchion anifeiliaid eraill

Mae'n ofynnol yn ôl Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002) i adroddiad gael ei lunio yn ôl pum prif bennawd fel y nodir isod.

1. Adolygu gweithgareddau holl Adrannau'r Llywodraeth gyda'r nod o atal clefydau rhag cael eu cyflwyno

Dyma'r prif ddatblygiadau a welwyd ers y rhai a nodwyd yn Adolygiad 2009/10:

Deall y risg

1.3.1 Mae Defra yn parhau i fonitro ac asesu'r bygythiadau sy'n newid o bob rhan o'r byd megis y sefyllfa o ran Clwy'r Traed a'r Genau yn y Dwyrain Canol a De-ddwyrain Asia sy'n esblygu yn ogystal â Chlwy Affricanaidd y Moch yn Rwsia a gwaith gydag Asiantaeth Ffiniau'r DU a phartneriaid gorfodi eraill i sicrhau bod gweithgarwch gorfodi wedi'i dargedu at y risgiau presennol.

1.3.2 Yn 2010/11 cynhaliodd a chyhoeddodd Defra 24 o Asesiadau Rhagarweiniol o Achosion mewn perthynas ag achosion o glefydau megis Clefyd Affricanaidd y Ceffylau, Clwy Affricanaidd y Moch, Clefyd Aujeszky, Brwselosis, Clwy'r Traed a'r Genau, Llynmeirch, Ffliw Adar Pathogenig lawn a Feirws Nil y Gorllewin. Ceir rhagor o wybodaeth yn <http://archive.defra.gov.uk/foodfarm/farmanimal/diseases/monitoring/index.htm>.

1.3.3 Rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2011, cyhoeddodd y DU 70 o hysbysiadau 'rhybuddio' a 'gwybodaeth' drwy'r System Rhybudd Cyflym ar gyfer Bwyd a Phorthiant (RASFF) a ddefnyddir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd (CE) neu Aelod-wladwriaethau eraill yr UE a'u hysgogi i weithredu, gan gynnwys pan wrthodir cynhyrchion bwyd o wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE nad ydynt yn bodloni gofynion diogelwch iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid. Mae gan y CE weithdrefn i rybuddio gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE am broblemau sy'n effeithio

ar fwyd. Mae RASFF yn rhybuddio Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd ac Awdurdodau Lleol (ALLau) mewn porthladdoedd a meysydd awyr yn awtomatig i'w galluogi i dargedu eu harchwiliadau ar fwyd a fewnforiwyd.

Gorfodi

2.1.1 Mae Asiantaeth Ffiniau'r DU yn dal i fod yn ymrwymedig i weithio'n agos gyda Defra a bydd yn parhau i weithredu ei strategaeth orfodi gyffredinol ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn unol â blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn dilyn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Credwn ei bod yn bwysig i'r cyhoedd fod yn ymwybodol y bydd Defra ac Asiantaeth Ffiniau'r DU yn parhau i gydweithio'n agos i sicrhau bod yr asiantaeth yn gweithredu strategaeth orfodi sy'n targedu llwybrau cyrraedd sydd fwyaf tebygol o gyflwyno clefydau anifeiliaid i'r DU. Mae Defra ac Asiantaeth Ffiniau'r DU yn monitro'r asesiadau risg i'w galluogi i ymateb yn hyblyg i batrymau risg sy'n newid.

2.1.2 Cyflawnir rheolaethau gwrthsmyglo Asiantaeth Ffiniau'r DU ar y ffin ar sail yr asesiadau risg diweddaraf ac unrhyw gudd-wybodaeth sydd ar gael am fewnforion anghyfreithlon. Cynorthwyr swyddogion gan gwn canfod sydd wedi'u hyfforddi'n benodol i ganfod cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a hefyd gan dechnoleg pelydr-x.

2.1.3 Yn dilyn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, mae Asiantaeth Ffiniau'r DU ynghyd ag Adrannau eraill y Llywodraeth yn edrych yn feirniadol ar ffyrdd o foderneiddio'r gweithlu i sicrhau'r gwerth gorau am arian. Mae hyn yn dod yn fwyfwy pwysig yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Bydd y rhaglen hon i foderneiddio'r gweithlu yn cynnwys datblygu gweithlu craidd llai o faint, mwy hyblyg ar y cyd â ffyrdd gwell a mwy arloesol o gyflawni rheolaethau gwrthsmyglo sy'n seiliedig ar risg.

2.1.4 Mae Asiantaeth Ffiniau'r DU hefyd yn ymateb i hysbysiadau am glefydau penodol, megis achosion difrifol o glefyd y gall gynyddu

rheolaethau ar eu cyfer os oes angen. Er enghraifft, yn dilyn achosion o Glwy'r Traed a'r Genau ym Mwlgaria o fis Ionawr 2011, bu Defra'n gweithio gydag Asiantaeth Ffiniau'r DU i leihau'r risg o gynhyrchion nas rheoleiddir yn dod i mewn i Brydain Fawr o ranbarthau yr effeithiwyd arnynt.

Gwaharddwyd mewnforio cig, cynhyrchion cig (gan gynnwys helgig a chrwyn), llaeth a chynhyrchion llaeth a gafwyd o anifeiliaid a all ddal Clwy'r Traed a'r Genau (gwartheg, ceirw, geifr, moch a defaid yn bennaf) a oedd yn dod o'r ardaloedd cyfyngedig at ddefnydd personol¹.

Felly rhoddwyd mesurau dros dro ar waith i fonitro bagiau personol teithwyr o ardal Burgas ym Mwlgaria ac roedd cynhyrchion gwaharddedig yn agored i gael eu hatafael gan swyddogion Asiantaeth Ffiniau'r DU mewn manau cyrraedd ym Mhrydain Fawr. Roedd Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon (DARDNI) yn gyfrifol am reolaethau mewn manau cyrraedd yng Ngogledd Iwerddon. Mesur eithriadol oedd hwn am nad yw pwerau'r tollau yn gymwys fel arfer i gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sy'n symud rhwng gwledydd yn yr UE.

2.1.5 Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn parhau i weithio'n agos gydag ALLau i wella'r ffordd y maent yn gorfodi rheolaethau mewnforio bwyd. Mae ALLau mewndirol yn cael gwybodaeth, drwy'r Asiantaeth Safonau Bwyd, am gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fewnforiwyd yn anghyfreithlon o wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE ac a atafaelwyd ac a gadwyd gan Asiantaeth Ffiniau'r DU. Mae'r gudd-wybodaeth a ledaenir yn galluogi ALLau mewndirol i weithredu ar y wybodaeth ac yn darparu llif gydategol o wybodaeth rhwng ALLau mewndirol ac Asiantaeth Ffiniau'r DU drwy'r Asiantaeth Safonau Bwyd i lywio'r gwaith o dargedu gwiriadau gwrthsmyglo ar y ffin. Mae'r gudd-wybodaeth a gyflwynir hefyd yn galluogi'r Asiantaeth Safonau Bwyd i wneud gwaith dadansoddi i nodi tueddiadau o ran cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fewnforiwyd

yn anghyfreithlon a chydweithio i geisio gwella trefniadau cydgysylltu lleol ar y ffin, yn enwedig wrth ddatblygu unrhyw gudd-wybodaeth leol a allai helpu'r broses dargedu ar gyfer rheolaethau Asiantaeth Ffiniau'r DU a gwiriadau gan Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd mewn manau archwilio ar y ffin.

Mae'r fframwaith cudd-wybodaeth presennol rhwng Asiantaeth Ffiniau'r DU a'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi'i atgyfnerthu i wella'r llif o wybodaeth am risg sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau gorfodi ar y ffin ac yn fewndirol i dargedu cynhyrchion anifeiliaid anghyfreithlon. Gwnaeth Asiantaeth Ffiniau'r DU 70 o atgyfeiriadau o ran gwybodaeth am risg i'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at ragor o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn cael eu hatafael gan nifer o ALLau.

2.1.6 Ystyr twyll bwyd yw gosod bwydydd sydd wedi'u camddisgrifio neu y bwriedir iddynt dwyllo'r cwsmer mewn rhyw ffordd arall ar y farchnad er budd ariannol. Mae'n cynnwys defnyddio cynhwysion rhatach, o ansawdd gwael yn aml, mewn bwydydd a gwerthu bwydydd y gall fod iddynt oblygiadau o ran iechyd y cyhoedd, megis bwydydd sy'n anaddas i'w bwyta gan bobl neu y mae'n hysbys eu bod wedi'u halogi.

Mae Cangen Twyll Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn gyfrifol am helpu ALLau gyda'u hymchwiliadau i dwyll bwyd. Yn aml gall yr ymchwiliadau hyn ddefnyddio cryn dipyn o adnoddau ac mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnig nifer o adnoddau i'w cynorthwyo. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth ariannol drwy wneud cais i'w Chronfa Ymladd, y cyfle i fanteisio ar arbenigedd a phrofiad aelodau ei Huned Cynghori ar Dwyll Bwyd, gwybodaeth a gynhyrchir drwy ei Chronfa Data Twyll Bwyd genedlaethol a hwyluso hyfforddiant ar gyfer swyddogion gorfodi cyfraith bwyd drwy ei chwrs "Casglu Gwybodaeth a Sgiliau Cyfweld".

¹ Yn unol â Phenderfyniad y Comisiwn 2011/44/EU dyddiedig 19 Ionawr 2011 (fel y'i diwygiwyd) sy'n ymwneud â mesurau diogelu penodol rhag Clwy'r Traed a'r Genau ym Mwlgaria.

Yn ystod 2010/11 cymeradwyodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd 18 o geisiadau gan ALLau yn gofyn am gymorth ariannol gan ei Chronfa Ymladd.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn parhau i ddatblygu ei Chronfa Data Twyll Bwyd genedlaethol ac, o ganlyniad uniongyrchol, yn 2010/11 crëwyd bron i 900 o gofnodion ar y system, sy'n cyfateb i'r nifer a grëwyd yn 2009/10 a mwy na dwywaith y nifer yn 2008/09. Mae'n bwysig bod y duedd hon yn parhau ac mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn annog ALLau, diwydiant a defnyddwyr i anfon gwybodaeth am dwyll bwyd yn rheolaidd, waeth pa mor ddibwys yr ymddengys. Drwy ddadansoddi cronfa ddata sylweddol fwy, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi llwyddo i gynhyrchu gwybodaeth well, gan ei galluogi i roi mwy o gymorth gydag ymchwiliadau ALLau. At hynny, ar adeg pan fo cyllidebau yn gyfyngedig, mae'r wybodaeth a roddir ganddi wedi bod yn amhrisiadwy i helpu ALLau i dargedu eu gwaith gorfodi cyfraith bwyd yn effeithiol. Mae hyn, yn ei dro, wedi arwain at nifer o ymgyrchoedd llwyddiannus.

2.1.7 Cafwyd adroddiadau yn y wasg ar ddiwedd mis Chwefror 2011 am achos honedig o atafael cig tsimpansî yng Nghanolbarth Lloegr. Ymchwiliodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd i'r honiad hwn gyda phob un o'r ALLau yn yr ardal ac ni ddaeth o hyd i unrhyw dystiolaeth bod unrhyw gig o'r fath wedi'i ganfod.

2.1.8 Mae cronfa ddata GRAIL (Canllawiau a Chyngor Rheoliadol ar Ddeddfwriaeth Fewnforio) yr Asiantaeth Safonau Bwyd sydd ar we, a lanswyd ym mis Mawrth 2008, yn parhau i ddarparu cronfa ddata gyfredol chwiliadwy ar gyfer swyddogion gorfodi sy'n cynnwys y canlynol:

- Yr holl ganllawiau ar fwyd a fewnforir a deddfwriaeth yn ymwneud â chynhyrchion nad ydynt yn dod o anifeiliaid a chynhyrchion pysgod a physgodfeydd;
- Crynodeb o reolaethau mewnforio ar gynhyrchion/gwledydd penodol;

- Rhestr gynhwysfawr o gysylltiadau perthnasol;
- Dolenni gwe defnyddiol sy'n ymwneud â bwyd a fewnforir.

Er mwyn cydnabod y ffaith bod pob ALL mewndirol yn gyfrifol am orfodi rheolaethau ar fwyd a fewnforir yn ogystal â'r rhai yn y man cyrraedd, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn annog pob swyddog gorfodi i ddefnyddio GRAIL – gweler <https://grail.foodapps.co.uk/grail/general/home.aspx>.

2.1.9 Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn parhau i ddarparu hyfforddiant ar sail ranbarthol ledled y DU a phecyn hyfforddi ar-lein i sicrhau bod swyddogion gorfodi, mewn porthladdoedd ac yn fewndirol, yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau ymarferol ar weithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd a fewnforir.

Codi Ymwybyddiaeth

2.2.1 O fis Mai 2010, nid oedd gan Defra nac Asiantaeth Ffiniau'r DU gyllidebau penodedig ar gyfer ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd am fod gwariant y Llywodraeth ar hysbysebu a marchnata wedi'i rewi. Felly, rydym wedi gweithio gydag Adrannau eraill y Llywodraeth megis y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad i ystyried defnyddio cyfryngau cyfathrebu am ddim/cost isel i barhau i helpu i godi ymwybyddiaeth teithwyr o'r rheolau ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fewnforir at ddefnydd personol. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd. Roedd Defra yn bennaf cyfrifol am dargedu cynulleidfaoedd mewndirol a bu Asiantaeth Ffiniau'r DU yn arwain y gwaith o roi gwybodaeth i deithwyr (h.y. y rhai a oedd yn bwriadu teithio i'r DU) drwy gyhoeddusrwydd mewn manau cyrraedd a gadael yn y DU a thramor. Mae DARDNI yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'r rheolau ar fewnforio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid at ddefnydd personol yng Ngogledd Iwerddon.

Cyhoeddusrwydd Defra

Ymgyrch Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

2.2.2 Diwygiwyd taflenni ar gyfer Tsieina (Tseinëeg wedi'i Symleiddio) a Saesneg Generig a gwefannau priodol yn ystod hydref 2010 i ystyried y gwaharddiad presennol ar fewnforio wyau amrwd o Tsieina (heb gynnwys Hong Kong na Macao), Malaysia, De Korea neu Wlad Thai² at ddefnydd personol.

2.2.3 Ym mis Hydref 2010 ymunodd Defra â stonddin y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad yn nigwyddiad Amazing Africa yn Sgwâr Trafalgar a dosbarthodd 600 o daflenni. At hynny sicrhodd y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad fod dolenni i wefannau Defra yn dal i ymddangos ar wefan y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad ac mae wedi cytuno i gynnwys gwybodaeth am yr ymgyrch yn ei thaflen 'Visiting friends and families'. Hefyd cynhwysodd y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad ddolen i wefan 'foodimports' Directgov yn ei gwybodaeth am Gwpan Criced y Byd, a gynhaliwyd yn India, Sri Lanka a Bangladesh rhwng canol mis Chwefror a dechrau mis Ebrill.

2.2.4 Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg a neges Twitter drwy borthiant Twitter Defra ym mis Tachwedd 2010 yn rhybuddio pobl rhag dod â bwyd yn ôl o Hajj.

Ymgyrch gyffredinol yn targedu teithwyr

2.2.5 Ers ei lansio ym mis Awst 2008, mae'r hysbyseb deledu 'Don't bring me back' a gynhyrchwyd dan arweiniad Defra yn parhau i gael ei dangos ac mae'n dal i berfformio'n dda.

Rhwng mis Ebrill 2010 a 1 Chwefror 2011 fe'i darlledwyd 34,000 o weithiau sy'n werth £228,000 mewn amser ar yr awyr a sicrhodd TVR (Mesur Teledu) o fwy nag 80. O ran gwerth, mae hyn yn gynydd o 26% o gymharu â'r un cyfnod o flwyddyn i flwyddyn. Mae TVR yn mesur poblogrwydd rhaglen neu hysbyseb benodol

drwy gymharu ei chynulleidfa â'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae un TVR yn cyfateb i 1% o gynulleidfa darged/gwylwyr yn yr ardal a arolygwyd mewn munud benodol, felly mae TVR o 80 yn golygu, ar gyfartaledd yn ystod y rhaglen, fod mwy nag 80% o'r gynulleidfa darged wedi gwyllo'r hysbyseb.

Ymhlith yr uchafbwyntiau mae darllediadau gwerth dros £10,000 ar BBC1 ac, ar gyfartaledd, un darllediad bob dydd ar Channel 4 sy'n werth dros £42,000. At hynny, mae wedi cael sylw gwerth £4,000 ar nifer o Sgriniau y Tu Allan i'r Cartref a defnyddir y cynnwys yn helaeth gan Gynghorau ledled y wlad.

2.2.6 Parhaodd y Gwiriwr Bwyd a lanswyd ym mis Mai 2009 i fod yn adnodd poblogaidd ar wefan Directgov, yn ogystal â gwefannau partner megis gwefannau The Sun a Virgin. Defnyddiwyd yr adnodd tua 2,700 o weithiau bob mis drwy wefan Directgov ac roedd ganddo broffil is ar wefannau The Sun a Virgin.

2.2.7 Defnyddiwyd gweithgarwch ar-lein Swyddfa'r Wasg, gan gynnwys fideo ar-lein a Twitter, yn ystod Cwpan Pêl-droed y Byd yn Ne Affrica ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2010 i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r rheolau mewnforio personol (gan gynnwys crwyn a ddefnyddir i wneud drymiau).

2.2.8 Cynhwyswyd cwestiynau a oedd yn ymwneud â bwyd a fewnforir at ddefnydd personol yn Ymchwil Olrhain Arferion Teithio'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad ym mis Mehefin 2010. Canfu'r Ymchwil hon fod 52% yn ymwybodol o gyhoeddusrwydd ynghylch peidio â dod â chynhyrchion cig/lloeth i'r DU o wledydd y tu allan i'r UE, sef gostyngiad mewn ymwybyddiaeth ers y don ddiwethaf (59%). Nodwyd gostyngiad mewn ymwybyddiaeth drwy raglenni, erthyglau a hysbysebu. Fodd bynnag, y prif reswm a fyddai'n atal teithwyr rhag dod â chynhyrchion bwyd anghyfreithlon i mewn i'r DU

² Yn unol â Phenderfyniad y Comisiwn 2005/692/EC (fel y'i diwygiwyd) sy'n gosod mesurau diogelu penodol i atal Fflw Adar rhag lledaenu i'r UE.

yw'r ffaith syml ei fod yn anghyfreithlon (48%). Roedd 9% o bobl yn ansicr ynghylch y rheolau ac roedd 7% yn gwybod y gallai ledaenu clefydau a phlâu i'r DU.

Cyhoedduswyd Asiantaeth Ffiniau'r DU

2.2.9 Mae taflenni sy'n crynhoi'r rheolau ar fewnforio cynhyrchion anifeiliaid at ddefnydd personol yn parhau i gael eu darparu i deithwyr mewn porthladdoedd a meysydd awyr. Ailfrandiwyd y daflen yn 2010 ac mae ar gael ar wefan Asiantaeth Ffiniau'r DU yn www.ukba.homeoffice.gov.uk/travellingtotheUK.

2.2.10 Dosbarthwyd tua 49,000 o'r taflenni hyn i borthladdoedd a meysydd awyr yn ystod y flwyddyn i'w defnyddio gan swyddogion Asiantaeth Ffiniau'r DU.

2.2.11 Mae posterï'n parhau i gael eu harddangos mewn mannau amlwg mewn porthladdoedd a meysydd awyr, er mwyn hysbysu teithwyr o'r rheolau mewnforio. Mae hyn yn cynnwys negeseuon priodol ar sgriniau LCD mewn neuaddau bagiau a mannau cyhoeddus eraill mewn terfynellau penodol. Mae'r posterï hefyd yn cael eu harddangos wrth brif reolfeydd lle mae unigolion yn cyrraedd y DU, sy'n integreiddio'r tollau a rheolaethau mewnffudo mewn un canolbwynt ar y ffin.

2.2.12 Roedd y rheolau mewnforio personol ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn rhan o gyfres o negeseuon a arddangoswyd ar ddesgiau rhynggrwyd, sgriniau LCD ac arbedwyr sgrîn mewn gwahanol borthladdoedd a meysydd awyr. Parhaodd y gweithgaredd hwn tan fis Ionawr 2011.

2.2.13 Mae Asiantaeth Ffiniau'r DU wedi bod yn defnyddio cyfathrebiadau 'upstream' i addysgu a hysbysu'r rhai sy'n bwriadu teithio o'r cyfyngiadau ar ddod â chynhyrchion bwyd anghyfreithlon i'r DU. Ymgorfforwyd negeseuon yn y llyfryn 'Playing By the Rules' a luniwyd gan Asiantaeth Ffiniau'r DU, ac anfonwyd tua 400,000 o gopïau at ymgeiswyr llwyddiannus am fisa i'r DU cyn

iddynt deithio i'r DU. Mae'r llyfryn bellach wedi'i adnewyddu a'i ailenwi'n 'Your Stay in the UK'.

Arddangoswyd posterï hefyd mewn swyddfeydd fisa dramor wedi'u hanelu at ddinasyddion India, Pakistan, Nigeria, Bangladesh, Tsieina, Affganistan, Zimbabwe, Iran, Sri Lanka, Jamaica, Ghana, Brazil, Malaysia a Mawrisiws.

2.2.14 Mae gwaith gorfodi Asiantaeth Ffiniau'r DU i atal cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid rhag cael eu mewnforio'n anghyfreithlon wedi parhau i gael sylw mewn nifer o raglenni teledu cenedlaethol yn ystod y flwyddyn. Darlledwyd y gyfres deledu 'Food Fighters' ar BBC1 yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2010 gan ddilyn swyddogion Asiantaeth Ffiniau'r DU ym Maes Awyr Heathrow. Darlledwyd yr ail gyfres o raglen ddogfen Sky 'UK Border Force' a pharhawyd i'w hailddarlledu yn ystod y flwyddyn, gan ddangos bwydydd gwaharddedig yn cael eu hatafaelu oddi ar deithwyr yn Heathrow. Ym mis Hydref 2010 cafodd rhaglen 'Farming Today' BBC Radio 4 gyfle i edrych ar y gwaith canfod cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a wneir gan swyddogion Asiantaeth Ffiniau'r DU ym Maes Awyr Birmingham fel rhan o gyfres wythnos a fu'n edrych ar ddiogelwch bwyd. Tynnodd swyddogion sylw at y math o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a atafaelir. Mae'r ffilmiau byr a ddatblygwyd i'w defnyddio mewn canolfannau ceisiadau am fisa dramor hefyd yn adlewyrchu'r elfen hon ar waith Asiantaeth Ffiniau'r DU. At hynny, ffilmwyd cyfres deledu newydd a fu'n edrych ar ymdrechion gorfodi Asiantaeth Ffiniau'r DU, gan gynnwys canfod cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, yn ystod 2010 ac fe'i darlledir yn 2011 ar Sky Living.

2.2.15 Cynhwyswyd dolenni i wefannau Directgov – www.direct.gov.uk/dontbringmeback (wedi'i thargedu at aelodau o'r cyhoedd sy'n teithio) a www.direct.gov.uk/foodimports (wedi'i thargedau at grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig) ar wefannau Defra ac Asiantaeth Ffiniau'r DU ac mae Defra ac Asiantaeth Ffiniau'r DU wedi gweithio gyda'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad

i hyrwyddo dolenni gwe perthnasol ar ei gwefan a chynnwys gwybodaeth am yr ymgyrch yn ei deunydd cyhoeddusrwydd cyfochrog.

Cyhoeddusrwydd DARDNI

2.2.16 Mae DARDNI wedi parhau i godi proffil y bygythiad o glefyd yn cael ei gyflwyno gan gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid mewn nifer o ffyrdd. Cynhyrchwyd taflenni a phosteri wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau mewn rheolau mewnforio personol, gan roi gwybodaeth i'r cyhoedd sy'n teithio am y cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid y gellir ac na ellir dod â hwy yn ôl i Ogledd Iwerddon. Arddangosir posterï mewn mannau cyrraedd sy'n rhoi gwybodaeth am y rheolau sy'n ymwneud â mewnforio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid at ddefnydd personol.

2.2.17 Mae cymryd camau goruchwyllo gweithredol yn ogystal ag archwiliadau yn seiliedig ar risg drwy holi teithwyr yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r rheolau. Rhoddodd gweithgarwch ymgysylltu â grwpiau cymunedol lleol megis Cymdeithas Lles y Tseiiniaid a grwpiau myfyrwyr hefyd gyfle i DARDNI godi ymwybyddiaeth.

2.2.18 Yn ystod y flwyddyn ymwelodd Gweinidog DARDNI â Maes Awyr Rhyngwladol Belfast i fwrw golwg ar reolaethau ac ar ôl hynny cyhoeddwyd datganiad i'r wasg ar beryglon dod â bwyd yn ôl o wyliau. Cyhoeddwyd datganiadau eraill i'r wasg yn atgoffa'r cyhoedd na ddylent ddod â chynhyrchion anghyfreithlon sy'n dod o anifeiliaid yn ôl pan fyddant yn dychwelyd o wyliau ac yn rhoi gwybod am newidiadau i reolau mewnforio personol. Rhoddwyd cyngor perthnasol wedi'i ddiweddaru hefyd ar wefan DARDNI ac NI Direct (gwefan swyddogol y Llywodraeth ar gyfer Gogledd Iwerddon).

Cyfranogiad cwsmeriaid

Ni fu unrhyw ddatblygiadau pellach ers y rhai a nodwyd ym mharagraffau 2.3.1 i 2.3.4 o Adolygiad 2009/10.

2. Ystadegau ar gynhyrchion anghyfreithlon

2.3.1 Er mwyn cyrraedd y gweithlu craidd llai o faint a mwy hyblyg a nodwyd ym mharagraff 2.1.3 roedd angen ailstrwythuro ac ailganolbwyntio ymdrechion Asiantaeth Ffiniau'r DU o ran yr holl weithgareddau a gyflawnir ar y ffin. Mae hyn wedi effeithio ar lefelau atafaelu ond mae Defra/Asiantaeth Ffiniau'r DU yn hyderus bod Asiantaeth Ffiniau'r DU mewn sefyllfa gryf i sicrhau ei bod yn mynd i'r afael â'r risgiau mwyaf ar y ffin.

2.3.2 Bydd Asiantaeth Ffiniau'r DU yn parhau i dargedu ei hymdrechion yn seiliedig ar asesiadau a ddarperir gan arbenigwyr milfeddygol Defra. Mae'r asesiadau hyn yn dosbarthu gwledydd yn ôl pa mor gyffredin yw clefydau anifeiliaid a allai gael eu lledaenu gan fewnforion anghyfreithlon a'r gwledydd a'r cynhyrchion sy'n peri'r risg fwyaf. Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau y defnyddir adnoddau Asiantaeth Ffiniau'r DU i fynd i'r afael â'r risgiau mwyaf sy'n hysbys.

2.3.3 Mae'r rhan fwyaf o'r mewnforion anghyfreithlon a ganfyddir gan Asiantaeth Ffiniau'r DU yn symiau bach ac ar y cyfan maent yn parhau i fod yn anrhegion gan deithwyr sy'n ymweld â pherthnasau (neu sy'n dychwelyd ar ôl ymweld â pherthnasau dramor), neu'r atafaeliadau gan dwristiaid, pobl fusnes a myfyrwyr sy'n teithio i'r DU am y tro cyntaf gyda bwydydd ar gyfer achlysuron arbennig neu er mwyn cael 'blas o gartref'. Prin yw'r atafaeliadau sy'n cynnwys nwyddau a smyglwyd yn fwriadol. Yn hytrach nwyddau ydynt a atafaelir gan deithwyr nad ydynt yn ymwybodol, er gwaethaf ein hymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, o'r rheolau a'r gwaharddiadau sydd ar waith o ran mewnforio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid.

2.3.4 Nodir ystadegau sy'n ymwneud â chyfanswm yr atafaeliadau, eleni ac yn ystod blynyddoedd blaenorol (lle bo cofnodion ar gael), yn Atodiad 1.

3. Deddfwriaeth: pwerau

Ni fu unrhyw ddatblygiadau pellach ers y rhai a nodwyd ym mharagraff 2.5.1 o Adolygiad 2009/10.

4. Deddfwriaeth: effeithiolrwydd

Ni fu unrhyw ddatblygiadau pellach ers y rhai a nodwyd ym mharagraff 2.6.1 o Adolygiad 2009/10.

5. Gweithredu yn y dyfodol

Camau gweithredu'r Llywodraeth

2.4.1 Bydd Defra ac Asiantaeth Ffiniau'r DU ynghyd â'r Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn adolygu'r strategaeth ar gyfer mewnforyn anghyfreithlon yn ystod 2011/12 a fydd yn cwmpasu prif feysydd, sef cudd-wybodaeth, gorfodi, cyhoeddusrwydd a champau ataliol. Byddwn yn ceisio sicrhau'r cydbwysedd cywir ac yn parhau i sicrhau bod ymdrechion gorfodi Asiantaeth Ffiniau'r DU yn cael eu targedu at y risgiau mwyaf.

2.4.2 Bydd Iechyd Anifeiliaid a'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol yn uno o 1 Ebrill 2011 gan ddod â gwasanaethau, arbenigedd a gallu gwyddonol sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid o fewn un asiantaeth. Felly bydd hyn yn cynyddu gwytnwch wrth ddarparu gwasanaethau pwysig gan gynnwys y gallu i ymateb i argyfwng sy'n ymwneud â chlefyd anifeiliaid a gofynion gwyddonol o ran iechyd anifeiliaid. Bydd hefyd yn arwain at ffyrdd mwy effeithlon o weithio.

2.4.3 Bydd Defra yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd, Iechyd Anifeiliaid a'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol ac Asiantaeth Ffiniau'r DU i sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau'r UE a Phrydain Fawr ar gyfer mewnforyn cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid o'r tu allan i'r UE at ddibenion masnachol, drwy fannau archwilio ar y ffin.

2.4.4 O 25 Mai 2011, disodlir Rheoliadau Cynhyrchion sy'n dod o Anifeiliaid (Mewnforyn Trydydd Gwledydd) (Lloegr) 2006, Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforyn ac Allforio) 2006 a Rheoliadau Cynhyrchion sy'n dod o Anifeiliaid (Mewnforyn ac Allforio) 2006 yn Lloegr gan Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig 2011. Ni fydd y penderfyniad i gyflwyno'r Rheoliadau newydd yn newid yr amodau ar gyfer mewnforyn cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid na'r rheolaethau ar y cyfryw fewnforyn ond bydd y Rheoliadau yn diweddarar cyfeiriadau at reolau'r UE ac yn symleiddio'r ddeddfwriaeth i swyddogion gorfodi. Bydd Llywodraethau Cymru a'r Alban hefyd yn rhoi deddfwriaeth debyg ar waith yn ddiweddarach yn 2011.

Deall y risg

2.4.5 Bydd Defra yn parhau i fonitro'r sefyllfa ryngwladol o ran clefydau, gan lunio asesiadau yn ôl yr angen i helpu i lywio gweithgarwch gorfodi.

Er mwyn helpu i ddarparu'r gudd-wybodaeth a rhoi syniad o'r risg a wynebir, bydd Asiantaeth Ffiniau'r DU yn monitro lefelau atafaelu drwy gydol y flwyddyn ond ei blaenoriaeth yw sicrhau ei bod yn defnyddio adnoddau i fynd i'r afael â meysydd sy'n peri'r risg fwyaf.

Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd

2.4.6 Bydd Defra, Asiantaeth Ffiniau'r DU a'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad yn parhau i weithredu'n gydgyssylltiedig ar draws y Llywodraeth yn y maes hwn a byddant yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu'r strategaeth gyhoeddusrwydd ar gyfer 2011/12, gan ystyried llwyddiannau a gwersi a ddysgwyd o 2010/11 ac unrhyw flaenoriaethau sy'n newid wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, er mwyn sicrhau y cyrhaeddir cynulleidfaoedd targed ar adegau teithio/gwyliau allweddol a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

2.4.7 Mae cynlluniau i Defra ailddatblygu'r Gwiriwr Bwyd sydd ar gael ar wefan Directgov hyd at ddiwedd mis Mawrth 2011 a'r gronfa ddata Rheolau

Mewnforio Personol – a geir ar hyn o bryd ar wefan Defra yn: <http://importdetails.defra.gov.uk/Default.aspx?Location=None&Module=IDDSearch> – er mwyn darparu adnodd mwy cyfoes a chosteffeithiol i'w ddefnyddio gan deithwyr pan fyddant am edrych ar y rheolau mewnforio personol.

Cydweithio rhyngwladol a chyfnewid gwybodaeth

2.4.8 Bydd Defra ac Asiantaeth Ffiniau'r DU yn parhau i gefnogi pob ymdrech i annog mwy o gydweithredu rhwng y tollau a'r awdurdodau milfeddygol yn Aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Bydd Asiantaeth Ffiniau'r DU yn ceisio cyfleoedd i hwyluso'r broses o gyfnewid cudd-wybodaeth a gwybodaeth arall yn ymwneud â risg i ganfod mewnforion anghyfreithlon.

2.4.9 Bydd Defra yn parhau i weithio yn yr UE ac yn rhyngwladol i ddylanwadu ar Aelod-wladwriaethau eraill yr UE a gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE a lleihau'r risg o gyflwyno clefydau i'r DU.

Gweithio mewn partneriaeth â chwsmeriaid

2.4.10 Bydd Defra yn parhau i weithio gyda chwsmeriaid i helpu i ddatblygu ei pholisïau.

2.4.11 Bydd pob partner gorfodi yn adolygu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol ac yn ei ddiwygio fel y bo'n briodol ar gyfer 2011/12.

2.4.12 Byddwn yn gweithio gyda diwydiant a phartneriaid cyflawni i leihau'r beichiau ar fewnforwyr yn dilyn yr Adroddiad Rhag-gyllidebol ar hwyluso masnach.

2.4.13 Caiff Bwrdd Iechyd a Lles Anifeiliaid newydd ei greu ar gyfer Lloegr. Am y tro cyntaf, bydd pobl yr effeithir arnynt gan bolisi'r Llywodraeth ar iechyd a lles anifeiliaid yn gallu gwneud argymhellion ar y polisïau hynny yn uniongyrchol i Weinidogion. Mae'r Bwrdd newydd yn cael ei greu yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Grŵp Cynghori Annibynnol ar Rannu Cyfrifoldebau a Chostau a gadeiriwyd gan Rosemary Radcliffe, a gyhoeddodd ganfyddiadau ei waith ar sut y

gall ceidwaid anifeiliaid chwarae mwy o ran yn y gwaith o fynd i'r afael â chlefydau anifeiliaid.

Bydd y Bwrdd Iechyd a Lles Anifeiliaid newydd a fydd yn eiddo i Defra yn cynnwys tua 12 o aelodau a chaiff ei gynnull yn ail hanner 2011. Bydd yn dod ag arbenigwyr gan gynnwys ffermwyr, milfeddygon, arbenigwyr ym maes lles ac eraill o'r tu allan i'r Llywodraeth at ei gilydd gyda Nigel Gibbons, y Prif Swyddog Milfeddygol, a gweision sifil i wneud argymhellion uniongyrchol ar bolisiau sy'n effeithio ar iechyd a lles pob anifail a gedwir megis anifeiliaid fferm, ceffylau ac anifeiliaid anwes. Gweinidogion y Llywodraeth fydd yn gyfrifol am benderfynu'n derfynol ar bolisi iechyd a lles anifeiliaid.

Bydd yn rhaid i'r Bwrdd a'i aelodau gynrychioli safbwyntiau'r holl randdeiliaid, felly bydd disgwyl iddynt gyfathrebu â hwy'n rheolaidd.

Bydd cyfrifoldebau'r Bwrdd yn cynnwys y canlynol:

- Pennu'r blaenoriaethau o ran polisi;
- Datblygu polisïau allweddol a sut y dylid eu hariannu;
- Asesu'r risg o fygythiadau gan glefydau anifeiliaid a sut i'w rheoli;
- Pennu'r blaenoriaethau o ran goruchwyliaeth ac ymchwil;
- Adolygu a datblygu cynlluniau wrth gefn ar gyfer ymdrin ag achosion newydd o glefydau;
- Ystyried pa systemau codi tâl, os o gwbl, y dylid eu cyflwyno.

Monitro cynnydd

2.4.14 Bydd y Llywodraeth yn parhau i fonitro effeithiolrwydd yr holl weithgareddau hyn.

Cyllid

2.4.15 Mae cyllid yn parhau i fod ar gael i'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer gwaith ar reolaethau mewndirol.

Atodiad 1 – Ystadegau ar fewnforio cynhyrchion anghyfreithlon

Cefndir

Nodir ystadegau sy'n ymwneud â chyfanswm yr atafaeliadau o wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE, eleni ac mewn blynyddoedd blaenorol (lle bo cofnodion ar gael) yn yr Atodlen hon. Mae'r ystadegau ar gyfer eleni hefyd yn cynnwys atafaeliadau a wnaed gan Asiantaeth Ffiniau'r DU o ganlyniad i'r mesurau eithriadol a roddwyd ar waith ar gyfer Bwlgaria (un o wledydd yr UE) yn ystod y flwyddyn (gweler paragraff 2.1.4).

At ddibenion yr ystadegau hyn, mae 'anghyfreithlon' yn cyfeirio at gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a atafaelwyd am fod yr eitemau'n torri'r consesiynau personol a ganiateir neu lwythi masnachol sydd wedi ceisio osgoi'r gweithdrefnau cywir ar gyfer mynd i mewn i wlad drwy beidio â datgan cynnyrch mewn man archwilio ar y ffin. Mae'r ystadegau hefyd yn cynnwys eitemau a ildwyd yn wirfoddol gan deithwyr mewn porthladdoedd a meysydd awyr.

Dengys Tabl 1 a Thabl 2 nifer, pwysau a maint yr atafaeliadau gan Asiantaeth Ffiniau'r DU mewn manau cyrraedd (a chan staff ar ariannwyd gan

Defra hyd at 11 Ebrill 2003), y rhai a wnaed gan DARDNI mewn manau cyrraedd yng Ngogledd Iwerddon a'r rhai a wnaed gan ALLau mewndirol ac Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd.

Weithiau caiff mwy nag un cynnyrch sy'n dod o anifeiliaid ei atafaelu (e.e. cig, pysgod, cynnyrch llaeth a mêl). Cyfeirir at hyn fel 'atafaeliadau lluosog'. Hyd at 31 Mawrth 2006, (gweler Tablau 3a a 3b) cofnodwyd hyn fel un achos o atafaelu yn erbyn y cynnyrch a oedd yn pwysu fwyaf er bod pwysau'r cynhyrchion eraill a atafaelwyd wedi'i gynnwys yn y pwysau a gofnodwyd ar gyfer y categori hwnnw. Fodd bynnag, mae nifer yr atafaeliadau fesul cynnyrch ar gyfer 2006/07 a'r blynyddoedd dilynol yn Nhablau 3c a 3d yn adlewyrchu sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafaelu gan gynnwys cynhyrchion o 'atafaeliadau lluosog'. Mae hyn yn golygu y bydd cyfanswm nifer yr atafaeliadau ar gyfer pob un o'r pedwar categori cynnyrch yn uwch na'r cyfanswm terfynol o atafaeliadau ar gyfer y blynyddoedd hynny. Fodd bynnag, gellir cymharu cyfanswm nifer yr atafaeliadau'n uniongyrchol â'r ffigurau ar gyfer y blynyddoedd blaenorol o hyd (Gweler Tabl 1).

Tabl 1: Cyfanswm y cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a atafaelwyd a'u pwysau (2001-2011) a'u maint (2006-2011)

Cyfnod	Nifer yr atafaeliadau	Pwysau (kg)	Maint (litrau)
01/04/01-31/03/02	2,053	114,790	N/K
01/04/02-31/03/03	7,819	109,211	N/K
01/04/03-31/03/04	15,838	185,889	N/K
01/04/04-31/03/05	25,610	220,155	N/K
01/04/05-31/03/06	32,795	272,121	N/K
01/04/06-31/03/07	35,001	239,773	63,165
01/04/07-31/03/08	24,956	183,483	12,463
01/04/08-31/03/09	20,660	191,937	16,405
01/04/09-31/03/10	21,267	163,013	1,467
01/04/10-31/03/11	16,828 ³	140,433	794

Tabl 2: Cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a atafaelwyd a'u pwysau a'u maint fesul rhanbarth (2010-2011)

Rhif adnabod y Rhanbarth/ Enw'r Rhanberth	Nifer yr atafaeliadau	Pwysau (kg)	Maint (litrau)
1 Dwyrain Ewrop	1,040	4,265	2
2 Dwyrain Affrica	568	2,861	3
3 Gogledd Affrica	239	1,012	1
4 Canol Affrica	69	710	0
5 De Affrica	245	600	0
6 Gorllewin Affrica	627	14,620	1
7 Gogledd America	527	27,272	0
8 Y Caribî	143	2,304	2
9 Canol a De America	168	1,095	2
10 Dwyrain Asia	3,304	14,475	380
11 De Asia	3,235	23,247	107
12 De Ddwyrain Asia	114	238	0
13 Y Dwyrain Agos a'r Dwyrain Canol	3,341	22,736	266
14 Ynysoedd y De	65	2,490	0
15 Ewropeaidd	14	47	0
16 Anhysbys	3,129	22,461	30
Cyfanswmiau	16,828	140,433	794

3 O'r nifer hwn, dim ond 4% ohonynt oedd yn atafaeliadau cludo a llong. Mae'r atafaeliadau hyn yn cyfrif am tua 55% o gygyfanswm yr atafaeliadau, a thua 95% o gygyfanswm maint yr atafaeliadau.

Tabl 3a: Atafaeliadau o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, yn cynnwys pwysau, yn ôl cynnyrch (2001-2003) – hen fformat cofnodi

Cyfnod	Cig		Pysgod		Cynnyrch Ilaeth		Lluosog		Arall	
	Nifer yr atafaeliadau	Pwysau (kg)	Nifer yr atafaeliadau	Pwysau (kg)	Nifer yr atafaeliadau	Pwysau (kg)	Nifer yr atafaeliadau	Pwysau (kg)	Nifer yr atafaeliadau	Pwysau (kg)
01/04/01-31/03/02	1,242	18,955	353	32,691	63	3,784	361	55,791	34	3,569
01/04/02-31/03/03	2,986	31,301	1,837	21,267	759	19,807	2,172	36,170	65	666

Tabl 3b: Atafaeliadau o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, yn cynnwys pwysau, yn ôl cynnyrch (2003-2006) – hen fformat cofnodi

Cyfnod	Cig		Pysgod		Cynnyrch Ilaeth		Mêl	
	Nifer yr atafaeliadau	Pwysau (kg)	Nifer yr atafaeliadau	Pwysau (kg)	Nifer yr atafaeliadau	Pwysau (kg)	Nifer yr atafaeliadau	Pwysau (kg)
01/04/03-31/03/04	6,810	72,734	5,325	76,179	3,168	28,052	535	8,924
01/04/04-31/03/05	10,987	78,664	8,322	85,757	5,127	40,685	1,174	15,049
01/04/05-31/03/06	14,826	106,135	9,740	100,840	6,759	48,011	1,470	17,135

Tabl 3c: Nifer yr achosion o atafaelu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, yn cynnwys pwysau a maint, yn ôl cynnyrch (2006-2011) – fformat cofnodi newydd

Cyfnod	Cig			Pysgod			Cynnyrch Ilaeth			Mêl		
	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	Pwysau (kg)	Maint (litrau)	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	Pwysau (kg)	Maint (litrau)	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	Pwysau (kg)	Maint (litrau)	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	Pwysau (kg)	Maint (litrau)
01/04/06-31/03/07	19,254	90,326.72	20,867.00	10,644	65,545.11		10,231	67,717.64	42,298.08	2,029	16,183.86	
01/04/07-31/03/08	14,158	76,718.40		7,140	47,030.44		7,196	48,232.96	12,462.81	1,487	11,501.38	
01/04/08-31/03/09	11,356	76,903		5,673	52,991		6,304	53,372	16,405	1,332	8,671	
01/04/09-31/03/10	12,943	87,714		942	22,156		9,108	47,260	1,467	657	5,883	
01/04/10-31/03/11	10,186	42,987		290	22,933		7,640	68,167	794	347	6,346	

Tabl 3d: Sawl gwaith y cafodd cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid eu hatafael, gan gynnwys eu pwysau a'u maint, fesul rhanbarth (2010-2011)

Rhif adnabod y Rhanbarth/Enw'r Rhanberth	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael, Pwysau (kg) a Maint (litrau)	Cig	Pysgod	Cynnyrch Ilaeth	Mêl	Cyfansymiau
1 Dwyrain Ewrop	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	775	3	378	29	
	Pwysau (kg)	2,764	16	1,352	133	4,265
	Maint (litrau)			2		2
2 Dwyrain Affrica	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	274	3	351	49	
	Pwysau (kg)	1,069	106	1,388	298	2,861
	Maint (litrau)			3		3
3 Gogledd Affrica	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	179	3	87	2	
	Pwysau (kg)	555	224	224	9	1,012
	Maint (litrau)			1		1
4 Canol Affrica	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	59	5	7	0	
	Pwysau (kg)	556	137	17	0	710
	Maint (litrau)			0		0
5 De Affrica	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	234	2	20	1	
	Pwysau (kg)	511	50	29	10	600
	Maint (litrau)			0		0
6 Gorllewin Affrica	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	424	86	162	10	
	Pwysau (kg)	2,413	10,929	1,008	270	14,620
	Maint (litrau)			1		1
7 Gogledd America	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	413	5	123	4	
	Pwysau (kg)	3,563	272	23,419	18	27,272
	Maint (litrau)			0		0
8 Y Caribî	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	119	1	25	3	
	Pwysau (kg)	888	44	1,341	31	2,304
	Maint (litrau)			2		2
9 Canol a De America	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	127	0	60	4	
	Pwysau (kg)	433	0	650	12	1,095
	Maint (litrau)			2		2

Tabl 3d: Sawl gwaith y cafodd cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid eu hatafael, gan gynnwys eu pwysau a'u maint, fesul rhanbarth (2010-2011) (parhad)

Rhif adnabod y Rhanbarth/Enw'r Rhanberth	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael, Pwysau (kg) and Maint (litrau)	Cig	Pysgod	Cynnyrch Ilaeth	Mêl	Cyfansymiau
10 Dwyrain Asia	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	3,058	50	356	14	
	Pwysau (kg)	9,305	3,989	1,068	113	14,475
	Maint (litrau)			380		380
11 De Asia	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	1,190	49	2,322	28	
	Pwysau (kg)	3,739	3,787	15,503	218	23,247
	Maint (litrau)			107		107
12 De Ddwyrain Asia	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	99	0	18	1	
	Pwysau (kg)	187	0	41	10	238
	Maint (litrau)			0		0
13 Y Dwyrain Agos a'r Dwyrain Canol	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	1,371	26	2,305	126	
	Pwysau (kg)	4,541	2,194	13,410	2,591	22,736
	Maint (litrau)			266		266
14 Ynysoedd y De	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	46	2	13	6	
	Pwysau (kg)	404	79	39	1,968	2,490
	Maint (litrau)			0		0
15 Ewropeaidd	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	8	0	9	0	
	Pwysau (kg)	15	0	32	0	47
	Maint (litrau)			0		0
16 Anhysbys	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	1,810	55	1,404	70	
	Pwysau (kg)	12,044	1,106	8,646	665	22,461
	Maint (litrau)			30		30
Cyfansymiau	Sawl gwaith y cafodd y cynnyrch ei atafael	10,186	290	7,640	347	
Cyfansymiau	Pwysau (kg)	42,987	22,933	68,167	6,346	140,433
Cyfansymiau	Maint (litrau)			794		794

Atodiad 2 – Rhestr o Dalfyriadau ac Acronymau Cyffredin

AHVLA	Iechyd Anifeiliaid a'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol
ALI	Awdurdod Lleol
ALLau	Awdurdodau Lleol
CE	Y Comisiwn Ewropeaidd
CThem	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
DARDNI	Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon
Defra	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Fera	Yr Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd
FSA	Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
GRAIL	Canllawiau a Chyngor Rheoliadol ar Ddeddfwriaeth Fewnforio
LCD	Arddangosiad Grisial Hylifol
NI	Gogledd Iwerddon
UE	Yr Undeb Ewropeaidd
RASFF	System Rhybudd Cyflym ar gyfer Bwyd a Phorthiant
TVR	Mesur Teledu
DU	Y Deyrnas Unedig

ADOLYGIAD BLYNYDDOL A WNEIR O DAN ADRAN 10A o DDEDDF IECHYD ANIFEILIAID 1981 (FEL Y'I DIWYGIWYD GAN DDEDDF IECHYD ANIFEILIAID 2002)

Mae angen paratoi'r adroddiad statudol hwn a'i osod gerbron y Senedd yn unol ag adran 10A o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002). Mae'n cwmpasu'r Deyrnas Unedig ac mae copïau yn cael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd yr Alban. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei osod gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Cyfarwyddiaeth Wledig Llywodraeth yr Alban

Llywodraeth Cymru – Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon



Cyhoeddwyd gan TSO (y Llyfrfa) ac ma ear gael:

Ar-lein yn
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Archebion drwy'r facs neu E-bost
TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion dros y ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebion drwy Linell Gymorth Lo-Call y Senedd 0845 7 023474
Archebion drwy'r facs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn destun: 0870 240 3701

Siop Lyfrau'r Senedd
12 Bridge Street, Parliament Square,
London SW1A 2JX
Archebion dros y ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion drwy'r facs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Rhyngrwyd: <http://www.bookshop.parliament.uk>

TSO@Blackwell ac Asiantaethau Achrededig eraill

ISBN 978-0-10-851093-9



9 780108 510939